

Swydd	<p>Uwch Reolwr Prosiect, Cymru: Plant a Phobl Ifanc</p> <p>Drwy weithio ochr yn ochr gyda'r Cyfarwyddwr, bydd y deilydd swydd yn rheoli cyflenwi rhaglenni cerddoriaeth mewn lleoliadau addysgol a chymunedol, yn brydlon ac o fewn cyllideb. Bydd y deilydd swydd hefyd yn canfod ac yn datblygu ffynonellau ariannu prosiectau ac yn cefnogi marchnata a chyfathrebu'r gangen..</p>
Cyflog	£30,000 FTE y flwyddyn (£21,000 pro rata 0.7 FTE/3.5dpw)
Math o swydd	Swydd barhaol, rhan amser, 3.5 diwrnod yr wythnos (gyda'r dewis i weithio'n hyblyg).
Dechrau	Haf 2022
Lleoliad	Yn y swyddfa yng Nghaerdydd gyda gweithio hyblyg a'r cyfle i weithio o bell.
I Ymgeisio	<p>Gallwch uwch lwytho llythyr eglurhaol sy'n amlinellu sut rydych chi'n cyflawni'r meini prawf a'ch CV i'r ddolen hon: https://www.surveymonkey.com/r/LMNWalesSPM erbyn 5.00pm dydd Gwener 10 Mehefin 2022.</p> <p>Cofiwch gynnwys enwau a manylion cyswllt dau ganolwr sydd mewn sefyllfa i fynegi barn amdanoch yn broffesiynol gan nodi'n fyr pa mor hir ac ym mha swydd y maen nhw wedi eich adnabod (ni fyddwn yn cysylltu â'r canolwyr cyn cyfweliad).</p> <p>Os hoffech gyflwyno eich cais mewn fformat arall, byddem yn hapus i'w dderbyn. Cofiwch gysylltu â'r swyddfa ar 020 7759 1803 neu drwy e-bost emily.roberts@livemusicnow.org.uk er mwyn gallu trafod dulliau eraill. Mae'r pecyn hwn ar gael hefyd yn y Gymraeg.</p>
Shortlist notification	Wythnos yn dechrau 13 Mehefin 2022
Interviews	Yn bersonol yn ystod yr wythnos yn dechrau 29 Mehefin 2022, fyddai orau ond gellir addasu os bydd angen.
Notification	Mae'n ddrwg gennym na allwn ddarparu adborth heblaw eich bod ar y rhestr fer. Byddwn yn eich hysbysu i roi gwybod os byddwch ar y rhestr fer ai peidio.
	<p>Mae Live Music Now wedi ymrwmo i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac o'r herwydd rydym yn weithredol yn annog ceisiadau gan bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector diwylliannol a'n sefydliad ni. Hefyd croesawn y rhai sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau sy'n anablu neu sydd wedi profi hiliaeth.</p> <p>Mae LMN yn gyflogwr hyblyg a chymwynasgar; cefnogir yn llwyr gweithio hyblyg gan gynnwys gweithio o bell/o gartref.</p>

Live Music Now

Elusen yw Live Music Now sy'n gweithio ac yn ymgyrchu i greu effaith cymdeithasol, mesuradwy, cynhwysol drwy gerddoriaeth. Mae ein cerddorion proffesiynol yn gweithio gyda phobl hŷn (nifer yn byw gyda dementia) plant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sy'n anablu, teuluoedd sy'n byw drwy heriau a gofawyr a gweithwyr allweddol. Drwy gysylltu â phobl drwy gerddoriaeth a gwerthuso ei heffaith, rydyn ni'n datblygu arfer cerddorol ac yn newid sut rydyn ni'n deall ac yn cefnogi pobl sy'n cael eu tangynrychioli a rhai bregus yn ein cymdeithas. Gwelir bod tystiolaeth bod ein gwaith yn gwella iechyd a llesiant ac yn creu sgiliau, hyder ac ymgysylltiad.

Mae 50% o waith cyflenwi Live Music Now gyda Phlant a Phobl Ifanc. Rydyn ni'n canolbwyntio ar ddarparu sesiynau cerddoriaeth gynhwysol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a rhai ag anghenion addysg ychwanegol sy'n mynychu darpariaeth ysgolion arbennig. Mae hyn yn cynnwys cyngherddau cyfranogol a rhaglenni cerddoriaeth greadigol, byw ac ar-lein, sy'n anelu at gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol plant a phobl ifanc. Rydyn ni hefyd yn cefnogi teuluoedd sy'n profi ynysu cymdeithasol a rhwystrau sy'n anablu drwy weithdai a chyngherddau teuluol cynhwysol, ein rhaglen ar-lein "Including Me" a'r Prosiect Silwli. Mae cerddorion Live Music Now yn cymryd rhan yn ein rhaglen hyfforddi **Inspire** i greu sgiliau a hyder ychwanegol i gyflenwi sesiynau personol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys dysgu am y fframwaith datblygu cerddorol Sounds of Intent, cyfathrebu aneiriol, technoleg gerddorol a gweithio mewn partneriaeth gyda staff ysgolion.

Mae LMN wedi bod yn gweithio yng Nghymru ers 1990, gan gyflenwi dros 10,000 o berfformiadau ers hynny ac erbyn hyn yn cynnal, ar gyfartaledd, 650 sesiwn cerddorol yn flynyddol drwy weithio ym mhob un o'r 22 sir. Mae'r staff yn cynnwys y Cyfarwyddwr dros Gymru a Rheolwr Prosiect ac mae'r swyddfa wedi'i lleoli ym Mae Caerdydd.

Mae'r swydd barhaol hon yn nodi cyfnod newydd cyffrous yn natblygiad y gangen fel rhan o gynllun busnes pum mlynedd newydd uchelgeisiol. Rydym yn chwilio am ymgeisydd ysbrydoledig gyda'r sgiliau, uchelgais a'r angerdd hanfodol i gefnogi ein twf.

1) Strwythur Trefniannol

Mae Live Music Now erbyn hyn yn gweithredu ar draws y DU. Gyda changhennau Saesneg ar draws y De Ddwyrain, De Orllewin a'r Gogledd a changhennau cenedlaethol ar draws Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban gyda sefydliad tebyg yn yr Alban. Mae'r swydd hon yn Live Music Now Cymru a bydd yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr y Gangen ac aelodau allweddol tîm y DU.

Mae tîm o Gyfarwyddwyr Strategol yn arwain datblygiad gwaith LMN ym meysydd Gofal Cymdeithasol Oedolion, Gofal Iechyd, Plant a Phobl Ifanc a Datblygiad Cerddorion sy'n cael eu cyflenwi drwy rwydwaith o ganghennau ar draws y DU. Mae Cyfarwyddwr yn rhedeg pob cangen sy'n adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn ateb yn ôl i'r Prif Weithredwr sydd yn ei dro yn adrodd yn ôl i'r Cadeirydd a'r Bwrdd o Ymddiriedolwyr

1) Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

Rheoli Prosiect

- Rheoli ystod o brosiectau cerddorol a phreswylfeydd yn ôl cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cangen yn brydlon ac o fewn cyllideb gan gynnwys datblygu briff y prosiect, amserlenni, cysylltu gyda cherddorion a gwesteiywyr;
- Ymweliadau achlysurol â safleoedd i arsylwi ar weithgarwch y prosiect;
- Gweithio gyda Chyfarwyddwr y Gangen a'r Cyfarwyddwr Strategol perthnasol i sicrhau bod y gweithdrefnau monitro a gwerthuso priodol yn cael eu gweithredu;
- Cysylltu gyda cherddorion a phartneriaid ynglŷn â chofnodi gweithgareddau drwy luniau, ffilm a a thapiau sain mewn ymgynghoriad gyda staff LMN priodol a sicrhau bod cytundeb priodol wedi'i sicrhau;
- Paratoi adroddiadau yn ôl y gofyn i'w defnyddio'n fewnol ac yn allanol;
- Cynrychioli'r gangen mewn cyfarfodydd gyda phartneriaid y prosiect.

Codi arian

- Ymchwilio i gyfleoedd ariannu a llunio ceisiadau gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr y Gangen.

Gweinyddu

- Mewnbynnu digwyddiadau mewn cronfa ddata (Blackbaud's Raiser's Edge) a chreu cytundebau a threfnlenni ar gyfer cerddorion.
- Llogi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor, hyfforddiant ayyb yn ôl y galw;
- Rheoli offer y gangen sy'n cael eu benthyg allan i gerddorion: iPads, allweddellau, offer taro;
- Mynychu a chofnodi mewn cyfarfodydd chwarterol Pwyllgor Ymgynghorol LMN;
- Diweddarau dyddiadur ar-lein y swyddfa yn ôl y gofyn.

Cyllid

- Monitro gwariant y prosiect a rheoli cyllidebau'r prosiect;
- Prosesu a chreu anfonebau gyda meddalwedd QuickBooks (darperir hyfforddiant).

Marchnata a Chyfathrebu

- Cyfuno gwybodaeth, delweddau a dyfyniadau'r prosiect ar gyfer diweddarau'n rheolaidd gwefan a chyfryngau cymdeithasol LMN;
- Canfod a drafftio storïau newyddion;
- Trefnu cyfleoedd i gael lluniau a chysylltu â'r cyfryngau;
- Creu a chynnal cronfa ddata partneriaid, arianwyr posibl, rhanddeiliaid ac eraill.

Rheoli Cerddorion

- Cynorthwyo Cyfarwyddwr y Gangen i gysylltu â cherddorion a chefnogi eu hymrwymiad a'u datblygiad gyda ni;
- Rheoli digwyddiadau ar gyfer rhaglen hyfforddi a digwyddiadau;
- Rheoli gwiriadau DBS ar gyfer yr holl gerddorion newydd yn unol â pholisi Diogelu LMN;

Rheoli Linell

- Rheoli cerddorion llawrydd a staff eraill y prosiect;

Tasgau Ychwanegol

- Dirprwyo achlysurol ar gyfer Cyfarwyddwr y Gangen mewn digwyddiadau allanol;
- Cynnal unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â gofyn Cyfarwyddwr y Gangen ac sy'n berthnasol i'r swydd hon.

2) Telerau ac Amodau

Mae cytundeb y swydd yn barhaol. Y cyflog fydd £30,000 FTE y flwyddyn, (£21,000 pa 0.7 FTE, 3.5 dpw) a bydd yn cael ei dalu'n fisol.

- a) Mae'r penodiad yn ddibynnol ar:
 - i) Rhybudd terfyniad o bedair wythnos o'r ddwy ochr
 - ii) Cyfnod prawf o dri mis
- b) Mae'n bosibl y bydd angen Gwaith min nos neu benwythnos weithiau. Nid oes unrhyw dâl dros amser ond mae'n bosibl y gellir trefnu amser rhydd yn lle hyn.
- c) Bydd y deilydd swydd yn gweithio yn swyddfa Caerdydd gyda'r cyfle i weithio o bell. Darperir offer TG. Rhaid i'r deilydd swydd hefyd fod yn barod i deithio o gwmpas Cymru ac weithiau, o fewn Prydain Fawr.
- d) Mae Live Music Now yn darparu cynllun pensiwn i bob un o'r staff ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus. Bydd yn cael ei dalu drwy'r rhestr gyflog. Mae'r sefydliad yn cyfrannu 3% o'ch cyflog i'r cynllun ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.

3) Cyfle Cyfartal

Mae Live Music Now yn gyflogwr Cyfle Cyfartal. Rydyn ni'n hyrwyddo'r hawliau sylfaenol canlynol i bawb sy'n gysylltiedig â ni:

- I gael eu trin â pharch ac urddas
- I gael eu trin yn deg bob amser

beth bynnag eu lliw, hil, oed, cenedl, rhyw, ail-aseiniad rhyw, statws priodasol, anabledd, tueddfryd rhywiol neu grefydd neu gred ac wrth ystyried anghenion oriau hyblyg a phatrymau gwaith.

Nodiadau

Mae pob swydd yn ddibynnol ar newid o bryd i'w gilydd a bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Canllaw yw'r disgrifiad swydd i'r gwaith y bydd yn rhaid i chi ei wneud ac mae'n cynrychioli ystod o gyfrifoldebau yn unol â'r raddfa ar gyfer y swydd.

Rheolwr Prosiect Manyleb Bersonol

	Hanfodol	Dymunol
Profiad		
Lleiafswm o ddwy flynedd o brofiad o fewn y sefydliadau celfyddydol, diwylliannol neu fudiad gwirfoddol neu gyfatebol.	x	
Sgiliau/cymhwysedd		
Sgiliau Rheoli Prosiect, gan gynnwys cynllunio, gweithredu a monitro nifer o brosiectau ar yr un pryd.	x	
Profiad o sgiliau trefniannol a'r gallu i reoli llwythi gwaith amrywiol a chyflym.	x	
Dangos gwybodaeth waith o'r amgylchfyd ariannu (statudol, ymddiriedolaethau a sefydliadau a/neu eraill) gan gynnwys gallu i ddatblygu cynigion yn unol â blaenoriaethau'r ariannwr	x	
Effeithlonrwydd wrth reoli systemau swyddfa gan ofalu am fanylion.	x	
Llythrennog iawn ar draws ystod o becynnau ICT (set MS Office, a chronfeydd data – ar hyn o bryd, rydyn ni'n defnyddio Blackbaud Raiser's Edge) gan gynnwys bod yn gyfarwydd ag offer gweithio o bell, gan gynnwys Dropbox a Zoom.	x	
Sgiliau trefniannol a rheoli amser rhagorol ynghyd ag agwedd da wrth ddefnyddio'r ffôn.	x	
Sgiliau datrys problemau da.	x	
Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ysgrifenedig a llafar gyda pharodrwydd i gysylltu ag ystod amrywiol o bartneriaid.	x	
Gallu i gynrychioli'r sefydliad, cyfathrebu'n hyderus ac i ddirprwyo ar ran Cyfarwyddwr y Gangen, yn ei absenoldeb.	x	
Gwybodaeth waith o offer marchnata, gan gynnwys y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â chynulleidfaedd a rhanddeiliaid.		x
Cyllid		
Hyder wrth reoli a diweddarau cyllidebau.	x	
Yn gyfarwydd â defnyddio QuickBooks neu system gyllid debyg.		x
Gwybodaeth ac ymdrin		
Ymrwymiad i amrywiaeth, cynhwysiant a chyfle cyfartal.	x	
Angerdd dros a deall cerddoriaeth fel dull i effeithio'n gymdeithasol.	x	
Deall ac ymrwymiad i ddiogelu.	x	
Ymwybyddiaeth o sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a/neu addysg yng Nghymru.		x
Arall		
Egnïol, creadigol, mentrus ac ymroddedig.	x	
Hynod ysgogol gyda mentergarwch, gallu i drefnu blaenoriaethau, cyflawni targedau a gweithio'n unigol tra'n gweithredu fel rhan o dîm ehangach o dan gyfarwyddyd.	x	
Gallu i weithio fel rhan o dîm a datblygu perthnasoedd effeithlon o bell.	x	
Trwydded yrru lân ac yn berchennog car.		x
Siarad Cymraeg.		x